

Genevieve Leaper (rspb-images.com)

# Sesiynau Allgymorth RSPB

Chwech sesiwn 90 munud wedi'u cysylltu â'r cwricwlwm, pob un wedi eu addysgu gan addysgwyr RSPB

Mae bob sesiwn yn cynnwys oleuaf 30 munud o ddarganfod tu allan ac yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion i gael brofiad o'r byd naturiol. Medrwch weld pa mor hawdd yw addysgu yn yr awyr agored a ba mor werthfawr ydy'r profiad i'r dysgwyr. Peidiwch a phoeni os nad ydych yn meddwl bod tir eich Ysgol yn darparu am natur – rydym yma i'ch helpu i ddod ag amrywiaeth o natur i'ch buarth.

## Blwyddyn 1 - 6

Mae'r sesiynau i gyd yn annog gweithio yn gwyddonol, defnyddio offer syml ac hyrwyddo Iechyd a lles.

### Rhoi Cartref i Fyd Natur

Sut fydd map o gynefinoedd eich hysgol yn edrych? Dyluniwyd ein sesiwn Rhoi Cartref i Fyd Natur er mwyn helpu'ch disgyblion i fapio'ch hysgol ar gyfer natur gan nodi'r cynefinoedd ac ardaloedd sydd yn cynnal natur yn barod a cyfleoedd i ychwanegu mwy. Bydd disgyblion yn defnyddio'r cerdyn sgôr i gyfraddu perfformiad eich hysgol cyn ymchwilio sut i ehangu ar hyn.

Cysylltiadau Cwricwlwm: Fi fy hun a phethau nad ydynt yn fyw, Cyd-ddibyniaeth organebau, Y Ddaear gynaliadwy, Lleoedd a phobl, Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau
Fframwaith Rhifedd Defnyddio sgiliau rhif

### Geiriau Gwyllt

Byddem yn ysbrydoli gwaith llenyddol wrth gasglu pethau naturiol a cynhyrchu 'geiriau gwyllt', pan yn fforio tir eich ysgol trwy lygaid anifail.
Cysylltiadau Cwricwlwm: Fi fy hun a phethau byw eraill, Y Ddaear gynaliadwy
Fframwaith Llythrennedd; Llafaredd, Ysgrifennu

### Bioblitz

Rydym yn siwr bod eich hysgol yn rhoi cartref i fyd natur yn barod ond ym mhle ac i bwy? Bydd ein sesiwn Bioblitz yn helpu'ch disgyblion canfod yr ateb wrth iddynt ymchwilio'r cynefinoedd o'u cwmpas gan ddefnyddio potiau chwilod, ysbienddrychau a chwyddwydrau er mwyn nodi cymaint o blanhigion, coed, mân-drychfilod ac adar ag sy'n bosib.
Cysylltiadau Cwricwlwm: Fi fy hun a phethau byw eraill, Cyd-ddibyniaeth organebau
Fframwaith Rhifedd: Datblygu ymresymu rhifyddol, Defnyddio sgiliau rhif, Defnyddio sgiliau data

## Meithin a Derbyn

Mae'r sesiynau yn annog meddwl yn feirniadol wrth dysgu trwy gwneud mewn amgylchedd sydd yn annog iechyd a lles, hyder a pherthnasau positif

### Fforiwr Cynefin

Byddem yn helpu'ch plant i fforio ymysg y cynefinoedd sydd ar dir eich hysgol, i ddarganfod y nifer o fân-drychfilod ffantastig sydd o'u cwmpas, wrth ddefnyddio potiau chwilod a brwshys i nesáu at fywyd gwyllt.
Cysylltiadau Cwricwlwm: Fi fy hun a phethau byw eraill
Fframwaith Rhifedd: Datblygu ymresymu rhifyddol, Defnyddio sgiliau rhif, Defnyddio sgiliau data

### Synhwyro'r Byd

Fforiwch tir eich ysgol gan ddefnyddio'ch synhwyrau. Casglwch deunyddau naturiol er mwyn creu coctel drewllyd. Darganfyddwch a disgrifiwch eu lliwiau. Sut arogl sydd arnynt? Pa fath o deimlad sydd iddynt?
Cysylltiadau Cwricwlwm: Fi fy hun a phethau byw eraill
Fframwaith LLythrennedd: Llafaredd

### Geiriau Gwyllt

Wrth feddwl am yr anifeiliaid sydd yn byw ar dir eich hysgol, byddem yn arwain eich plant ar antur i fforio'r byd o'u cwmpas. Byddem yn casglu trysorau naturiol a defnyddio 'geiriau gwyllt' yn ystod y taith, fydd yn ysbrydoli'r plant wrth iddynt disgrifio'u taith.
Cysylltiadau Cwricwlwm: Fi fy hun a phethau byw eraill
Fframwaith Llythrennedd: Llafaredd



fotolia.com